| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 26 Medi 2018 |
| **Swyddog Arweiniol:** | Gerry Lapington |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Gerry Lapington |
| **Teitl:** | **Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol** |

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Hysbysu'r pwyllgor am berfformiad a rhaglen waith flynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol. Darparu graddfa sicrwydd o safonau diogelwch Cyngor Sir Ddinbych ym mhob maes gwasanaeth a chynghori ar waith pellach sydd wedi ei gynllunio ar gyfer 2018-19.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Darparu sicrwydd i'r pwyllgor fod damweiniau a digwyddiadau yn cael eu hadrodd a'u monitro; fod cymorth Iechyd a Diogelwch yn cael ei gynllunio'n unol â gwybodaeth a gesglir o amgylch y sefydliad; ac y darperir hyfforddiant Iechyd a Diogelwch fel bo'r angen.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Fod y pwyllgor yn nodi cynnwys Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol 2017 – 18 a atodwyd (atodiad 1), a'r Adroddiad Digwyddiadau a Damweiniau 2017 – 18 (atodiad 2) ac yn ardystio cynllun gwaith y Tîm Iechyd A Diogelwch Corfforaethol ar gyfer 2018 – 19.

**4. Manylion yr Adroddiad**

Gweler Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol 2017 – 18 a atodwyd (atodiad 1), ac Adroddiad Digwyddiadau a Damweiniau 2017 – 18 (atodiad 2).

Mae asesiad cyffredinol o ddull gweithredu Cyngor Sir Ddinbych mewn perthynas â systemau iechyd a diogelwch a rhan gweithwyr mewn trefniadau iechyd a diogelwch yn darparu sicrwydd canolig (melyn). Mae hyn yn golygu bod systemau rheoli iechyd a diogelwch yn cael eu datblygu a'u cofnodi a bod peryglon sylweddol yn cael eu nodi a'u rheoli i leihau'r risg. Mae peryglon sylweddol yn cael eu nodi a'u rheoli ar y cyfan i leihau'r risg. Ar y cyfan mae gweithwyr yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu a defnyddio systemau rheoli iechyd a diogelwch.

Mae rheolaeth Iechyd a Diogelwch ysgolion wedi'i archwilio'n ddiweddar gan yr uned archwilio mewnol a roddodd asesiad sicrwydd isel. Mae'r asesiad hwn yn rhannol o ganlyniad i'r natur ddatganoledig y caiff ysgolion eu rheoli. Mae pwyslais ar ddarparu canllaw clir i ysgolion i'w helpu i ddatblygu eu systemau rheoli diogelwch eu hunain.

Mae gan Gyngor Sir Ddinbych gofnod diogelwch da ac mae rheoli iechyd a diogelwch yn broses sy'n datblygu'n barhaus. Yn ystod 2017 cwblhaodd pob gwasanaeth Hunanasesiad Dadansoddiad O'r Bylchau a gafodd ei adolygu gan Iechyd a Diogelwch Corfforaethol fel rhan o'r broses herio perfformiad gwasanaethau flynyddol. Yn ogystal â hyn, cafodd y cwrs 'Rheoli'n Ddiogel yng Nghyngor Sir Ddinbych' ei wneud yn gwrs hanfodol i reolwyr, ac mae 110 (rheolwyr yn bennaf) wedi mynychu'r cwrs hyd yma.

Mae gwelliannau pellach wedi eu cynllunio ar gyfer 2018-19. Yn ogystal â'r rhaglen a nodir yn yr Adroddiad Blynyddol, bydd y tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol hefyd yn mynychu cyfarfodydd tîm rheolwyr gwasanaeth pan fyddant yn cael eu gwahodd i drafod eu rhaglenni gwelliannau unigol.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Disgwylir safonau iechyd a diogelwch da ymhob ardal a reolir gan yr awdurdod lleol ac mae hynny'n tanategu'r holl flaenoriaethau corfforaethol.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes angen cyllideb ychwanegol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

Dim angen (trafodwyd gyda Steve Price).

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**

Dim.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

*Rhowch ddatganiad y Prif Swyddog Cyllid yma, os oes angen un (mae datganiadau yn orfodol ar gyfer adroddiadau i'r Cabinet, i'r Cyngor ac ar gyfer penderfyniadau dirprwyedig).*

**10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Amh.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Amh.

*General notes:*

- *The report should be written in plain English or Welsh, and with all acronyms explained*
- *Headings should be in Century Gothic (font size 12), Sub-headings should use FSIngrid Bold (12)and the body font should be FSIngrid-Light (12). Please do not reduce the font size in order to reduce the size of the document*
- *Reports and appendices should be sent to Democratic Services in Word, Excel etc., rather than in .pdf form (if an Excel document is likely to present formatting problems or includes information in the spreadsheet that is not to be published please discuss this with the Committee Administrator. A correctly formatted pdf of the Excel document may be required in such cases).*